CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR BRO LLANGELER
2019

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol Nos Lun, Mai 20ed 2019 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i bawb am eu cydweithrediad tra yn y gadair ac i'r Clerc am ei chefnogaeth.

PRESENNOL: Cyng.- John Crossley (Cadeirydd), Jamie Ayres, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Ken Howell. Brenda Jones, Christopher Jones, Marc Rees, Dilwyn Smith, Adrian Thomas, Clerc – Stella Jones

Heddlu – Croesawodd PCSO J Kedward a PCSO newydd i'r ardal sef Bradley Davies

1. 05/19 YMDDIHEURIADAU: Cyng, John Wigley.

2. 05/19 CADARNHAU COFNODION 2018:
Roedd y cofnodion wedi ei cadarnhau yng nghyfarfod 25:6:2018 Cynigydd: Cyng. J Ayres
Eilydd: Cyng. D Smith

3. 05/19 ETHOL CADEIRYDD:-
Cynigwyd y Cyng. M Rees gan Cyng. A Thomas ac Eiliwyd gan Cyng. K Howell.
Etholwyd Cyng. M Rees

4. 05/19 ETHOL IS-GADEIRYDD:-
Cynigwyd Cyng. Delyth Evans yn is Gadeirydd gan Cyng. B Jones ac Eiliwyd gan Cyng. John Crossley
Etholwyd Cyng. Delyth Evans.

5. 05/19 LWFANS Y CADEIRYDD:
Am y flwyddyn 2019 – 2020 cynigwyd lwfans o £500 i'w dalu ar ddechrau ei th/dymor yn y gadair.
Cynigwyd gan Cyng. K Howell ac Eiliwyd gan Cyng. A Thomas

6. 05/19 CYFLOG Y CLERC: Penderfynwyd codi'r cyflog i £600 y mis

7. 05/19 MANTOLEN 2018 – 2019:
Derbyniwyd y fantolen wedi ei archwilio a'i chael yn gywir gan yr Archwilydd Mewnol – Mrs Ann James
Cynigydd – Cyng. A Thomas *Eilydd* – Cyng. D Evans

8. 05/18 APWYNTIO ARCHWILYDD MEWNOL am 2019-20:
Cytunwyd i ofyn i Mrs Ann James o Gapel Iwan i fod yn Archwilydd Mewnol eto am y flwyddyn 2019-20.

9. 05/19 CYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU
Neuadd y Ddraig Goch - Cyng. Ken Howell
Parc Puw Drefach - Felindre - Cyng. Ken Howell
Llywodraethwyr Bryn Saron - Cyng. John Wigley
Llywodraethwyr Penboyr - Cyng. Dilwyn Smith
Y Pwerdy Llandysul - Cyng. Jamie Ayres
Clwb Garddio – Cyng. John Wigley
Parc Pentrecwrt – Cyng. Ken Howell
Pwyllgor Llifogydd Llandysul – Cyng. Adrian Thomas

10. 05/19 MATERION CYFANSODDIADOL:
i. Cytunwyd i dderbyn y cynnig bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar nos Lun olaf bob mis am 7.30y.h arwahan i fisoedd Awst a Rhagfyr pan na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal. Ym mis Mai os bydd y dydd Llun olaf yn cwympo ar Ŵyl y Banc bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar y nos Lun wythnos cynt. Yr un peth i ddigwydd os bydd unrhyw nos Lun cyfarfod arall, yn ystod y flwyddyn, yn syrthio ar Wyl y Banc yr un fydd y drefn.
Dyddiadau Cyfarfodydd 2019/20
2019:- Mehefin 24ain, Gorffennaf 29ain, Medi 30ain, Hydref 29, Tachwedd 25ain,
2020:- Ionawr 27ain, Chwefror 24ain, Mawrth 30ain, Ebrill 27ain, Mai 18ed

ii.Unrhyw fater angen gwaith cyfreithiol i gael ei ddelio gyda Mrs Eleri Thomas & Co, Cyfreithwyr, CN Emlyn

iii. Derbyniodd y Cynghorwyr gopïau o Rheolau Statudol y Cyngor i'w adolygu a'i derbyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55yh

_____Cadeirydd _____Dyddiad